



Annwyl bawb

Wrth i ni barhau i wynebu'r newidiadau cyflym o ran effeithiau pandemig Covid-19, a gyda rhai o ddyddiadau allweddol Brexit ar y gorwel, mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi bod yn siarad â'r Llywodraeth a'r diwydiant yn gyson er mwyn cael yr arweiniad a'r cymorth gorau posibl yn ystod y cyfnod ymestynnol yma.

Ers fy niweddariad diwethaf ym mis Mawrth, rydyn ni wedi bod yn cynnal galwadau cynadledda rheolaidd a manwl gydag aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr uwch yn Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y sialensiau a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil Covid-19. Rydyn ni wedi gwahodd arbenigwyr o'r sector i'r cyfarfodydd hyn i rannu eu dirnadaeth nhw ar y materion hyn, ac rydyn ni wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Ffederasiwn Bwyd a Diod i fanteisio ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth nhw er budd busnesau bwyd a diod yng Nghymru. Mae ein cysylltiadau cadarn ag Arloesi Bwyd Cymru wedi ein helpu ni i lunio canllawiau ac adnoddau pwysig ar arferion gorau o fewn y diwydiant, ac maent wedi darparu data hanfodol yn hynny o beth.

Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'r Llywodraeth yng Nghymru a'r DU (ar faterion nad ydynt yn ddatganoledig) er mwyn sicrhau bod diwydiant bwyd a diod Cymru'n flaenoriaeth wrth gynllunio ar gyfer yr adferiad, a bod cymorth ar gael lle bo'r angen mwyaf amdano. Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth am y sialensiau a'r cyfleoedd sydd wedi codi yn sgil argyfwng C19.

Rydyn ni wedi bod yn cyfathrebu â'r diwydiant yn rheolaidd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein bwletin gwybodaeth wythnosol cryno newydd, â'r nod o ddarparu ffynhonnell cymorth uniongyrchol, newyddion perthnasol a lleisiau o'r sector yn uniongyrchol i'ch blwch e-bost. Rydyn ni'n gwybod y bydd llawer o fusnesau'n wynebu diswyddiadau a diweithdra, ac rydyn ni'n parhau i godi'r materion hyn a chwilio am atebion a chymorth. Mae ein Cydweithfa newydd ar gyfer Gweithluoedd Bwyd a Diod Cymru ar Facebook ar gael fel adnodd yn ystod argyfwng y pandemig, ac mae'n cyd-fynd â gwaith sy'n cael ei gyflawni gan rai o'n partneriaid allweddol fel Lantra Cymru.

Wrth i ni nesáu at ailagor busnesau bwyd a diod, a llacio rhai o'r cyfyngiadau, rydyn ni'n ymwybodol fod yna gymysgedd o fusnesau sy'n wynebu sialensiau gwahanol iawn i'w gilydd. Yn eu plith mae'r

strategaeth – Profi Orlhain Diogelu - sef dull esblygol o weithredu sy'n canolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd yng Nghymru rhag dal a lledu'r feirws. Rydyn ni mewn cysylltiad uniongyrchol â'r tasglu "POD" er mwyn sicrhau bod materion a sialensiau sy'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant bwyd a diod yn cael eu hystyried o fewn y strategaeth.

Yn ogystal â sialensiau, mae pob argyfwng yn dod â chyfleoedd hefyd. Mae'r Bwrdd wrthi'n systemataidd yn clustnodi'r cyfleoedd hynny ar gyfer busnesau yng Nghymru, ac yn gweithio i sicrhau ein bod ni'n clustnodi unrhyw rwystrau posibl i dwf. Bydd hyn yn sicrhau bod bwyd a diod Cymru gyda'r cyntaf i fanteisio ar gyfleoedd yn y DU a thramor.

Mae diwedd Mehefin yn ddyddiad allweddol ar gyfer trafodaethau Brexit, ac rydyn ni'n ymwybodol y bydd angen i ni gymryd camau pendant a chyflym ar y materion hyn.

Mae'r diwydiant bwyd a diod yn dal i fod yn ased aruthrol i Gymru, ac rydyn ni'n gwybod bod ein brandiau cryf yn parhau i daro tant gyda defnyddwyr. Bydd y Bwrdd yn parhau i bledio achos, cefnogi a chynrychioli'r diwydiant, ac rydw i bob amser yn croesawu eich syniadau a'ch cwestiynau o ran cydweithio.

Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru